


# Gallu Ariannol a Phlant sy'n Derbyn Gofal:

## Arweiniad i ofalwyr a gweithwyr gofal preswyl

Department for Education
pfeg
Personal Finance Education Group
sharefound

# Contents


3 Cyflwyniad

3 Pam bod dysgu am arian mor bwysig?

5 Beth allaf ei wneud i helpu?

5 Siarad am arian

8 Gwario

12 Cynilo – cadw arian yn ddiogel

13 Cynilo dros gyfnod hir – Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant (Child Trust Funds) a Chyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau (Junior Individual Savings Accounts)

15 Defnyddiwch rigymau a storïau i ddysgu am arian

16 Dysgu trwy gemau

16 Defnyddio rhaglenni teledu megis operâu sebon

17 Lle gallaf gael mwy o syniadau a deunyddiau?

19 Lle gall pobl ifanc mewn gofal gael cyngor ar faterion ariannol?

21 Sut gallaf eu helpu i aros yn ddiogel ar-lein?

23 Y “Share Foundation”

23 pfeg

## Cyflwyniad

Bwriad y ddogfen hon yw rhoi cymorth i’r rhai hynny sydd â chyfrifoldebau rhiantu corfforaethol i feithrin gallu ariannol plant a phobl ifanc sydd yn eu gofal, fel eu bod mewn sefyllfa well i drin eu harian wrth iddynt ddod yn annibynnol.

Mae’r ddogfen hon yn rhan o elfen addysgiadol ac ariannol cynllun yr Adran Addysg i ddarparu Cyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau *(Junior ISA’s)* i Blant sy’n Derbyn Gofal (a adwaenir hefyd fel “plant mewn gofal”). Rhydd y cynllun, dan arweiniad y ‘Share Foundation’, gyfrif cynilo unigol plant iau i blant mewn gofal nad oes ganddynt Gronfa Ymddiriedolaeth Plant. Mae rhagor o wybodaeth am Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant a Chyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau, yn ogystal â gwybodaeth am y cynllun, yng nghorff y ddogfen hon.

## Pam bod dysgu am arian mor bwysig?

Yn aml iawn mae plant mewn gofal yn colli allan ar gyfleoedd i ddysgu am arian fel rhan o fywyd beunyddiol teulu. Fel eu cyfoedion, mae arnynt angen cyfleoedd i ddefnyddio arian ac i siarad amdano wrth dyfu – trafod yr angen i flaenoriaethu gwario yng nghyswllt teganau a dillad, bwyd, rhent a morgeisi, nwyddau ar gyfer y tŷ, gwasanaethau neu gost mynd allan gyda ffrindiau.

*Roedd gen i ofalwraig faeth dda a ddysgodd i mi lawer am wneud i arian fynd ymhell ac am ei flaenoriaethu.  Hebddi hi buaswn mewn twll erbyn hyn.*

Person yn gadael gofal

Mae gofyn i bobl ifanc ddysgu'n gynnar fel bod y dysgu'n datblygu dros amser a'u bod yn medru ymarfer mewn sefyllfaoedd go iawn ymhell cyn byw'n annibynnol.

Ni ellir rhagdybio bod plant yn dysgu am drin arian yn yr ysgol.  Mae nifer o blant mewn gofal yn symud i mewn ac allan o leoliadau ac yn newid ysgolion yn aml (yng nghanol y flwyddyn weithiau) ac felly yn colli allan ar addysg arian personol.  Hefyd, gall y ddarpariaeth fod yn anghyson o'r naill ysgol i'r llall.

Dywed plant a phobl ifanc o bob oed wrthym eu bod eisiau i'w gofalwyr/teuluoedd eu helpu i ddysgu am arian.  Yn hyn o beth, cânt eu gweld fel y bobl bwysicaf.  Mae arnynt eisiau i'w gofalwyr eu helpu i ddysgu sut i wario'n ddoeth ar bethau y maent eu hangen (ac i beidio â gwario ar bethau nad oes arnynt eu hangen!), sut i gael y fargen orau a sut i gynilo.

*'Er mai chi eich hun sy'n gwario'r arian, mae cael sgwrs fer o bryd i'w gilydd efo'ch gofalwr yn helpu.'*

person ifanc 16 oed

## Beth allaf ei wneud i helpu?

### Siarad am arian

Hyd yn oed os yw plentyn yn aros efo chi am gyfnod byr yn unig, gallwch siarad am arian. Dewch â phlant i mewn i sgwrs am arian o oed ifanc. Gwnewch nhw'n rhan o benderfyniadau ar yr hyn y mae modd ei fforddio yn y cartref a'r hyn nad oes modd ei fforddio. Sicrhewch eu bod yn gwybod bod rhaid talu am bopeth ac mai dim ond wrth neilltuo arian a chynilo y mae modd cael dau ben llinyn ynghyd.

Proses raddol yw hi. Byddant yn dysgu am agweddau mwy cymhleth wrth iddynt dyfu. Mae rhai gofalwyr yn ei chael yn anodd penderfynu pa bryd i ddechrau siarad am annibyniaeth ariannol, gan boeni y byddai gwneud hynny'n rhy fuan yn creu ansicrwydd yn y plentyn neu berson ifanc. Ond golyga siarad amdano'n rhy hwyr nad ydynt wedi paratoi digon ar gyfer y byd mawr y tu allan i'r sustem ofal. O'r herwydd, mae'n bwysig gweld trin arian fel rhywbeth y mae'n rhaid i bob plentyn a pherson ifanc ddysgu amdano, a hynny'n raddol fel rhan o fywyd beunyddiol.

> *'Gyda fy mhlant fy hun a'm plant maeth, ceisiais eu dysgu am werthoedd penodol. Os oedd arnynt eisiau rhywbeth eithaf drud, roedd rhaid iddynt gynilo hanner yr arian a byddem ni'n talu'r hanner arall. Pan oeddynt yn hŷn roeddynt yn cael gwneud rownd bapur neu warchod. Os oeddent yn benthyg arian, roedd rhaid iddynt ei dalu'n ôl bob tro'*
>
> Gofalwraig faeth

**Pan fônt yn ifancach,** dangoswch iddynt ddarnau o arian ac arian papur a'u helpu i ddysgu eu gwerth, yna eu hannog i chwarae siop yn ogystal â dysgu wrth iddynt fynd i'r siop gyda chi.

Siaradwch am gost pethau. Pan ofynnwyd i blant rhwng 7 ac 11 beth fyddent yn ei wneud efo £1,500 yn 18 oed, y math o atebion a gafwyd oedd *'Buaswn yn prynu iPhone ac iPod ac iPad a Ferrari a beic' neu 'Buaswn yn prynu tŷ neu gar'.* 10% yn unig a ddywedodd y buasent yn cynilo'r arian!

Siaradwch am y gwahaniaeth rhwng pethau y mae arnom eu heisiau a phethau y mae arnom eu hangen. Hyd yn oed gyda phlant ifanc gellwch drefnu ychydig o eitemau syml fel gwydraid o ddŵr, dilledyn, bar o sebon, melysion a gêm a thrafod pa rai na fyddech yn medru byw hebddynt (pethau y mae arnoch eu hangen) a phethau y mae arnoch eu heisiau.

Gall plant ifanc fod yn rhan o drefnu diwrnod allan ac wrth iddynt fynd yn hŷn gallant gymryd mwy o gyfrifoldeb. Os oes cyllideb benodol ar gyfer y diwrnod, gallant helpu i ganfod y daith trên neu fws rataf neu faint fyddai’n ei gostio i fynd yn y car. Wrth ymchwilio i’r gost, gallant benderfynu a oes modd fforddio mynd allan am fwyd ynteu a fyddai’n well mynd â phecyn bwyd gyda nhw. Yn yr un modd, mae modd i bobl ifanc yn eu harddegau gynllunio teithiau i ddigwyddiadau chwaraeon neu gerddorol.

**Wrth iddynt dyfu’n hŷn** ceisiwch eu cael i ofyn cwestiynau fel:

*Oes arna’ i ei angen? Alla’ i ei fforddio? Ai’r unig reswm y mae arnaf ei angen ydi bod gan fy ffrind un? Ydw i’n cael fy nylanwadu gan hysbyseb fedrus? A wna’ i ei ddefnyddio? Ydi o’i werth o? Os ydwyf ei wir angen neu ei wir eisiau, lle galla’i gael y pris gorau?*

Wrth ddynesu at fod yn oedolyn mae gofyn i bobl ifanc edrych at y dyfodol. Beth yw’r pethau hanfodol er mwyn llwyddo i fyw’n annibynnol? Pa bethau y byddent yn dymuno eu cael ond y gallent fyw hebddynt? Tra mewn gofal, mae pobl ifanc yn cael pob dim y mae arnynt eu hangen i fyw arno ac, yn aml iawn, cânt fwy o arian na phlant eraill. Er ei bod yn iawn iddynt gael cyfleoedd a manteision ariannol, rhaid iddynt fod yn realistig ynghylch faint o arian fydd ganddynt i fyw arno yn y dyfodol a’r pethau y bydd raid iddynt dalu amdanynt.

> *'Dwi'n amcangyfrif, gyda lwfansau, costau hamdden a chostau eraill (rhedeg cartref) fod modd gwario £25,000 y flwyddyn ar blant maeth.  Bydd hynny i gyd yn newid pan fyddant yn gadael gofal.'*
>
> Gofalwraig faeth

Gallwch siarad am yr hyn y byddent yn ei wneud pe caent arian mawr yn sydyn.  Byddant i gyd yn cael rhywfaint o arian, megis Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant neu Gyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau, a bydd rhai yn cael arian iawndal.  Mae'n bwysig eu bod yn meddwl ymlaen ynghylch gwario neu gynilo.  Gofynnwyd yn ddiweddar i bobl ifanc 15 i 18 oed beth fuasent yn ei wneud pe bai ganddynt £1,500 yn 18 oed.  Eu hatebion oedd, *'mynd i siopa am 'sgidiau', 'cael gwyliau','cael gwersi gyrru'.*  25% yn unig o'r grŵp yma a soniodd am gynilo.

## Gwario

Holwch a oes gan eich gwasanaeth gofal maethu neu breswyl (neu Awdurdod Lleol) bolisi arian poced gydag arweiniad i ofalwyr.  Gallai hwn hefyd nodi hawliau a chyfrifoldebau'r bobl ifanc a chynnwys gwybodaeth am gynlluniau cynilo.

Dylai arian poced ddod allan o'r lwfans y mae'r gofalwr yn ei gael am ofalu am y plentyn neu berson ifanc.  Wrth roi arian poced i blant mae'n rhaid iddynt ei drin eu hunain.  Deuant i ddeall, unwaith y byddant wedi gwario'r arian na fydd mwy o arian ar gael tan y 'diwrnod cyflog' nesaf.  Mae modd cynnwys pobl ifanc mewn sgyrsiau gyda gweithwyr a gofalwyr cymdeithasol am flaenoriaethau gwario ac ar beth i'w wario.  Gall hyd yn oed blant ifanc gadw cofnod syml o'r hyn y maent yn gwario eu harian arno a faint sydd ganddynt ar ôl.

Er mwyn osgoi anawsterau rhyngddynt, ceisiwch roi'r un faint o arian i'w wario i bob plentyn – boed yn blentyn yr ydych yn gofalu amdano neu eich plentyn chi eich hun.  Os yw'r plentyn mewn gofal yn digwydd cael mwy o arian poced na'r plant eraill, efallai y gellid cynilo'r arian ychwanegol. (Gweler 'cynilo' isod).

*'Gofynnaf iddynt weithio allan pa dariff ffôn symudol sydd orau, gan weld a ydyw'n rhatach talu yn ôl defnydd ynteu cael cytundeb.  Rhaid iddynt edrych i mewn i delerau ac amodau'r gwahanol gytundebau a chanlyniad defnyddio munudau ychwanegol neu ddata.  Mi fyddai'n gofyn iddynt gyfiawnhau cost y modelau diweddaraf o'u cymharu â'r hen rai.'*

*Gweithiwr Gofal Preswyl*

Wrth i blant fynd yn hŷn dylent gael mwy o'r lwfans a siopa am ddillad ac eitemau personol.  Wrth iddynt symud tuag at annibyniaeth rhaid iddynt weld sut y mae gofyn i chi gynllunio ar gyfer pob agwedd o gostau rhedeg cartref.  Gallwch eu cynnwys mewn trafodaethau teuluol ynghylch biliau nwy a thrydan a gallant edrych ar y flwyddyn i gyd i weld gwahaniaeth yng nghost y tymhorau a gweld bod angen cynllunio ar eu cyfer.

Ceisiwch eu hannog i gadw golwg ar eu lwfans ac ar yr hyn y maent yn ei wario fel y dônt i'r arfer o gadw golwg ar eu harian.

*'Byddaf yn rhoi eu lwfans iddynt ond yna'n gofyn am gyfraniad tuag at bopeth y maent yn ei ddefnyddio neu'n ei fwyta yn y tŷ – y band llydan a'r XBOX, yr unedau o drydan pan fyddant yn cael cawod, arian ar gyfer litr o betrol am y lifft i'r ysgol neu am y bwyd sy'n mynd o'r oergell am 2 am!'*

Gofalwraig faeth

Mae modd defnyddio'r syniad yma gyda phlant ifancach. Gallwch ofyn iddynt dynnu llun y tŷ ac ychydig o'r pethau sydd ynddo ac yna siarad am faint y mae gwahanol bethau yn eu costio – megis trydan, bwyd, dodrefn, y teledu (gan gynnwys y drwydded).

Ewch â nhw i siopa a helpwch nhw i weithio allan beth sy'n werth am arian. Gallwch roi her iddynt gymharu prisiau a chanfod y gwerth gorau am arian – ar un eitem yn y lle cyntaf, ac yna'n raddol ar gynnwys y fasged siopa i gyd. Gallwch gymhlethu pethau trwy gymharu cynnyrch yn ôl eu pwysau a gweld a yw cynigion arbennig yn werth da go iawn. Gallwch wneud hyn wrth siopa ar-lein hefyd.

*'Byddwn yn mynd i siopa gyda'n gilydd – waeth beth yw eu hoedran. Mae fel helpu yn y tŷ – maent i gyd yn ei wneud. Maent yn sefyll yn y ciw ac yn talu am y nwyddau. Mae cyswllt rhwng gwybod gwerth arian a gweithgareddau megis siopa a pharatoi bwyd.'*

Gofalwraig faeth

Wrth i bobl ifanc symud tuag at annibyniaeth, rhowch gymorth iddynt drin arian ar gyfer holl gostau'r cartref.

*'Un o'r pethau mwyaf defnyddiol a ddywedwyd wrthyf oedd sut i siopa a gwneud i fwyd bara. Ar y dechrau gwariais £100 ar un siwrnau i'r siopau oherwydd mi brynais lwyth o ganiau diod ac ati.'*

Person ifanc yn gadael gofal preswyl

## Cynilo – cadw arian yn ddiogel

Dylai plentyn bob amser gael rhywle i gadw ei arian ei hun. Os nad oes ganddo gyfrif banc ac nid yw’n byw gyda chi am gyfnod hir, rhowch iddo gadw-mi-gei neu jar arian i gadw ei arian yn ddiogel. Mae’n hynod bwysig bod arian y plentyn yn cael ei gadw ar wahân i’ch cyfrif chi, yn enwedig gan y bydd yn cael ei gyfrif fel rhan o’ch incwm os ydych yn hawlio budd-dal sy’n dibynnu ar brawf modd.

Mae dysgu plant i drin eu cynilion eu hunain yn ogystal â’u gwario yn rhan bwysig o gyfrifoldeb gofalwr/wraig.

---

*‘Dwi’m yn gwybod dim am gynilo – fy ngofalwraig sy’n cynilo i mi’*

person ifanc 11 oed

---

Eu cyfrif banc eu hunain yw’r ateb, o bosib. Bydd hyn yn eu dysgu am arian, i feddwl a oes arnynt angen neu eisiau rhywbeth neu a allant ei fforddio, a’u hannog i gynilo i gael pethau arbennig. Gall plant eithaf ifanc edrych ar ddatganiadau banc a chael gwybod am log. Wrth iddynt fynd yn hŷn, gallant gymharu gwahanol gyfrifon a dewis y gorau, gan ddefnyddio safleoedd cymharu ar y we i’w helpu. Gallwch eu helpu i ddysgu am fancio dros y we a’r ffôn. Gallai sgwrs gydag ymgynghorydd yn y banc lleol fod o gymorth, hefyd.

Os oes ganddynt gyfrif banc cyn dod atoch chi, dylent ddod ag o gyda nhw - ond efallai bydd gofyn newid ymddiriedolwr.

Bydd gan wahanol fanciau wahanol ofynion o ran dogfennau cefnogi. Efallai y gofynnant am dystysgrif geni, na fydd gennych chi, fel gofalwr,

mohoni. Er y bydd banciau yn caniatáu i blant wyth neu ddeg oed drin eu cyfrifon, bydd angen cymorth ac arweiniad i wneud hyn.

Sylwch y bydd y rhan fwyaf o gyfrifon banc yn dod yn gyfrifon credyd/debyd yn otomatig unwaith y daw'r person ifanc yn ddeunaw oed. Golyga hyn y gall fynd i ddyled wrth i'w gerdyn banc ganiatáu iddo godi mwy o arian nag oes ganddo yn ei gyfrif. Mae gofyn i bobl ifanc yn eu harddegau hŷn wybod am ddewisiadau eraill ar wahân i fanciau'r stryd fawr, er enghraifft undebau credyd - a chael eu rhybuddio am beryglon benthycwyr carreg drws a benthyciadau diwrnod cyflog.

## Cynilo dros gyfnod hir – Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant (Child Trust Funds) a Chyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau (Junior Individual Savings Accounts)

Bydd gan bob plentyn mewn gofal ryw gymaint o gynilion neu fuddsoddiad tymor hir, er enghraifft Cronfa Ymddiriedolaeth Plant neu Gyfrif Cynilo Unigol Plant Iau. Fodd bynnag, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y cynilion tymor hir hyn ac arian y gall y person ifanc ei drin ei hun. Rhieni Corfforaethol Lleol[1], ac nid gofalwyr, ddylai fod yn gyfrifol am gynilion tymor hir – cynilion nad oes modd cael atynt hyd oni bydd y person ifanc yn ddeunaw mlwydd oed. Bwriad y cynllun Cyfrif Cynilo Unigol Plant Iau, ynghyd â'r *Share Foundation*, yw gwneud i hyn fod yn fwy effeithiol. Mae gofyn i bobl ifanc, fodd bynnag, feddwl am gynilo drostynt eu hunain ymhell cyn hyn.

## Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant

Yn sgîl penderfyniad y llywodraeth glymbleidiol yn 2010, rhoddwyd y gorau i roi cyfraniadau gwladol i'r Cronfeydd hyn a gyflwynwyd gan y llywodraeth Lafur yn 2002 fel ffordd ddi-dreth i blant gynilo. Fodd bynnag, mae gan blant a anwyd rhwng 1 Medi 2002 a 2 Ionawr 2011 –

[1] Awdurdodau Lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac Ymddiredolaethau Gofal Iechyd a Chymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon.

gan gynnwys y rhai mewn gofal – hawl i Gronfa Ymddiriedolaeth Plant. Dylai'r gronfa hon eisoes fod yn agored ac yn weithredol.

Bydd gan fwyafrif y plant mewn gofal rywun gyda chyfrifoldeb rhiant sy'n edrych ar ôl eu cyfrif iddynt, hyd yn oed os nad ydynt yn byw gyda'r unigolyn hwnnw ar y pryd. Fodd bynnag, efallai bod yna blant nad oes ganddynt rywun priodol sydd â chyfrifoldeb rhiant a all wneud hyn, e.e. plant amddifad sydd heb warchodwr cyfreithlon.

Yn yr achos hwn, y Cyfreithiwr Swyddogol (yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) neu Gyfrifydd y Llys (yn yr Alban) sy'n edrych ar ôl cyfryw gyfrifon y plant hynny, un ai hyd oni bydd rhywun sydd â chyfrifoldeb rhiant ar gael neu hyd oni bydd y plentyn yn 16 mlwydd oed. Bryd hynny gall y plentyn ddod yn gyfrifol am edrych ar ôl ei gyfrif ei hun.

Am fwy o wybodaeth am Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant ar gyfer plant mewn gofal, gweler www.hmrc.gov.uk/ctf/la-info.htm

## Cyfrifon Cynilon Unigol Plant Iau

Er mwyn parhau i gefnogi plant mewn gofal, mae'r Llywodraeth wedi dechrau cynllun i agor cyfrifon cynilon unigol plant iau i blant sydd wedi bod mewn gofal ers deuddeng mis yn olynol ac nad oes ganddynt Gronfa Ymddiriedolaeth Plant. Telir £200 i Gyfrif Cynilo Unigol Plant Iau ar gyfer y plant hyn.

Mae'r *Share Foundation*, sydd wedi'i benodi gan yr Adran Addysg i sefydlu'r cyfrifon hyn a'u gweithredu, yn codi arian i roi rhoddion ychwanegol a ddefnyddir i godi gwerth y cyfrifon hyn. Elusen annibynnol a sefydlwyd yn 2005 yw'r *Share Foundation* i roi cymorth i blant a phobl ifanc sydd â theulu dan anfantais sylweddol neu sydd â dim teulu o gwbl, iddynt gyflawni eu potensial trwy roi cefnogaeth ar ffurf adnoddau ariannol ac addysg.

Er y bydd gan y rhan fwyaf o blant mewn gofal un ai Gyfrif Ymddiriedolaeth Plant neu Gyfrif Cynilo Unigol Plant Iau, mae'r rhain yn ychwanegol at y gefnogaeth ariannol bresennol, megis y lwfans ymgartrefu. Ni ddylent ddisodli'r gefnogaeth hon.

Am fwy o wybodaeth am Gyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau ar gyfer plant mewn gofal, gweler www.sharefound.org

## Defnyddiwch rigymau a storïau i ddysgu am arian

Mae'r rhan fwyaf o storïau a llyfrau yn gyfle i siarad am gost pethau.  O oed ifanc gallwch ddefnyddio hwiangerddi a storïau traddodiadol.  Wrth drafod *Hen Fenyw Fach Cydweli* gellwch drafod a ydych yn cael y fargen orau am eich pethau da neu os darllenwch *Jac a'r Goeden Ffa* gellwch drafod a oedd o'i werth o i Jac werthu'r fuwch am lond llaw o ffa ac a oedd yn iawn ai peidio iddo ddwyn aur y cawr.

Ceir llyfrau hefyd sy'n trafod arian yn benodol a gall eich llyfrgell leol eich cynghori ynghylch llyfrau addas i oed a gallu'r plentyn neu'r person ifanc.  Er enghraifft yn y llyfr, *Dan Draed Dan Glo* gan Eurgain Haf a *Dim Problem* gan Emily Huws, ceir cymeriadau y mae'n rhaid iddynt ganfod ffyrdd o wneud arian. Mae'r llyfrau hyn a llyfrau eraill i'w gweld ar y wefan www.gwales.com <http://www.gwales.com>

Yn y Saesneg mae *Little Crocs Purse* gan Lizzie Finlay a *The Great Pet Sale* gan Mick Inkpen yn addas ar gyfer plant ifanc ac efallai y byddai plant rhwng 8 a 12 yn mwynhau *The Bed and Breakfast Star* gan Jacqueline Wilson, *All the Money in the World* gan Bill Britain neu *Millions* gan Frank Cottrell Boyce.

Hanes am hogyn ifanc (Damian) yw Millions gan Frank Cottrell Boyce (addas ar gyfer yr oedran 8 – 13). Mae Damian yn cael hyd i fag yn llawn arian (£229,370) sydd, yn ôl pob tebyg, wedi syrthio o'r awyr. Yn y stori, mae Lloegr ar fin newid ei harian ac ymuno â'r Ewro felly, rhaid i Damian gael hyd i ffordd o wario'r arian cyn gynted â phosib, cyn iddo fod yn ddi-werth. Wrthi'n ei helpu mae ei frawd mawr a'i unig ffrind mynwesol, Anthony. Fodd bynnag, yn wahanol i Anthony, mae gan Damian gydwybod pur ac mae'n hogyn sensitif ac, yn aml iawn, mae'n poeni ynghylch "y peth iawn i'w wneud". Mae'r stori'n codi cwestiynau am wir werth yr arian, y gwahaniaeth rhwng hunanoldeb ac anhunanoldeb, y pwysigrwydd cymharol rhwng boddhad personol a helpu pobl eraill. Mae hefyd yn ymdrin â materion megis ymddiriedaeth a galar (mae'r stori'n dechrau yn fuan ar ôl iddo golli ei fam).

## Dysgu trwy gemau

Mae gemau cyfrifiadurol a bwrdd yn ffordd hwyliog o annog dysgu. Ar wefan **pfeg** (Grŵp Addysg Arian Personol – Personal Finance Education Group) rhestrir gemau ac adnoddau eraill yr edrychwyd arnynt i sicrhau bod eu cynnwys yn gymorth i ddysgu am arian mewn ffordd effeithiol www.pfeg.org/resources. Efallai y gallai eich llyfrgell leol eich cynghori ar gemau a rhaglenni cyfrifiadurol y mae modd eu benthyg. Llinell gymorth gwasanaeth ymgynghorol ar addysg ariannol pfeg: 0300 6660 127 neu support@pfeg.org.

## Defnyddio rhaglenni teledu megis operâu sebon

Bydd dramâu neu operâu sebon, bron yn ddi-ffael, yn cynnig cyfleoedd i siarad am drin arian, yn enwedig felly efo pobl ifanc yn eu harddegau. Wrth ofyn cwestiynau fel *O le ydych yn meddwl y cawsant yr arian i dalu am hwnna? Ydi hi'n fargen well prynu ar y farchnad yn hytrach nag yn y siopau? Ydi pawb yn gwneud hynny? Sut y mae'r bobl yma'n ennill cyflog pan fônt i'w gweld yn y dafarn o hyd?* gellid dechrau

sgyrsiau a all arwain at edrych i mewn i faterion y byd go iawn. Mae gan rai operâu sebon straeon penodol am arian personol a beth mae pobl yn ei wneud pan ânt i drafferthion – mae rhai o'r rhain yn rhoi cyfle i siarad am beryglon defnyddio benthycwyr carreg drws a benthyciadau diwrnod cyflog.

## Lle gallaf gael mwy o syniadau a deunyddiau?

Mae nifer gynyddol o wefannau yn cynnig gwybodaeth, gweithgareddau a gemau i'w defnyddio gyda phlant a phobl ifanc ac iddyn nhw eu defnyddio eu hunain. Er enghraifft:

### pfeg

Ynghyd â'r arweiniad hwn i ofalwyr a gweithwyr gofal preswyl, mae **pfeg** hefyd wedi cynhyrchu'r deunydd a ganlyn fel rhan o'r prosiect yma ar ran y *Share Foundation*:

- Llawlyfr i bobl ifanc 11 oed mewn gofal
- Llawlyfr i bobl ifanc 15 oed mewn gofal
- Gallu ariannol a Phlant sy'n Derbyn Gofal: rôl Rhieni Corfforaethol

Mae'r holl ddeunydd ar gael ar www.pfeg.org/JISA neu www.sharefound.org.

Ceir hefyd nifer fawr o adnoddau, gemau a deunyddiau ar faterion ariannol i'w defnyddio gyda phobl ifanc www.pfeg.org.

### Family Learning

www.familylearning.org.uk/money_games.html

## Action for Children

www.actionforchildren.org.uk/

## BBC

www.bbc.co.uk/bitesize/ks1/maths

Mae'r wefan hon sydd â gweithgareddau i blant 5 i 7 oed yn cynnwys adran ar arian.

## Money Matters to Me

www.moneymatterstome.co.uk

Mae'r wefan hon yn rhoi gwybod i chi am bopeth am arian, gan gynnwys o le mae'n dod, gwario a neilltuo arian, hawl y cwsmer a llawer mwy. Ceir gweithdai rhyngweithiol, adnoddau printiadwy a gwahanol lwybrau y gallwch eu profi i gyd-fynd â'ch amgylchiadau.

## The Site

www.thesite.org/homelawandmoney

Yn ogystal â chael cyngor ar y cartref, y gyfraith ac arian, mae modd i bobl ifanc fynd ar *TheSite.org* i gael gwybodaeth am waith ac astudio, rhyw a pherthynas, diod a chyffuriau, ac iechyd a lles. Mae'r wefan yn cynnwys cyngor a chefnogaeth i bobl ifanc.

## Dough UK

www.doughuk.com

Adnodd arian personol ar gyfer pobl ifanc 14 – 19 mlwydd oed iddynt gael gwybodaeth, datblygu sgiliau a chanfod ffynonellau cymorth pellach.

# Lle gall pobl ifanc mewn gofal gael cyngor ar faterion ariannol?

## Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

www.moneyadviceservice.org.uk

Dyma'r lle cyntaf i droi ato am wybodaeth ariannol gadarn a diduedd gydag arweiniad cam wrth gam sy'n gymorth i drin arian o ddydd i ddydd, arian y teulu, astudio a gweithio.  Bydd o gymorth i rieni a gofalwyr ac i bobl ifanc yn eu harddegau hwyr.

## Gwybodaeth am gyllid ar gyfer addysg uwch

Yng Nghymru:

www.studentfinancewales.co.uk

Yn Lloegr (yn cynnwys adran yn y Gymraeg):

http://www.direct.gov.uk/en/EducationAndLearning/UniversityAndHigherEducation/StudentFinance/index.htm

Yn yr Alban:

www.saas.gov.uk/

Yng Ngogledd Iwerddon:

www.studentfinanceni.co.uk

## MEIC – Cyngor a chefnogaeth i bobl ifanc yng Nghymru:

Gwasanaeth gwybodaeth i blant a phobl ifanc rhwng 0 – 25 oed: www.meiccymru.org. Mae'n cynnwys gwybodaeth am ddiogelwch ar y we a llinell gymorth yn rhad ac am ddim sy'n agored 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos:

Rhif Ffôn - 0808 802 3456

## Cyngor ar Bopeth

Ffynhonnell cyngor a gwybodaeth am bron iawn i bopeth, ar-lein ac wyneb yn wyneb mewn swyddfeydd lleol.  Rhydd Cyngor ar Bopeth gyngor a chefnogaeth gynhwysfawr yng nghyswllt materion ariannol ledled y Deyrnas Gyfunol.

- Ceir gwasanaeth penodol i bobl ifanc dan 25 oed: www.citizensadvice.org.uk/advice4me/htm <http://www.citizensadvice.org.uk/advice4me/htm>
- Gwasanaethau i bob gwlad:
- Cyngor ar Bopeth yng Nghymru a Lloegr, gweler: www.citizensadvice.org.uk
- Cyngor ar Bopeth yn yr Alban, gweler: www.cas.org.uk
- Cyngor ar Bopeth yng Ngogledd Iwerddon, gweler: www.adviceguide.org.uk
- Yng Ngogledd Iwerddon, mae Cyngor ar Bopeth yn cynnal prosiectau cymunedol i gynorthwyo gyda theuluoedd a phobl ifanc ynghylch trin arian ac atal dyled, gweler: www.citizensadvice.co.uk/Money-Management/

## Young Scot

Gwefan ar gyfer pobl ifanc yn yr Alban wedi'i hanelu at bobl ifanc 11-26 oed  http://www.youngscot.org/

Yn cynnwys llinell gymorth '*Young Scot Infoline'*: 0808 801 0338

## Advice NI

Gwasanaethau cyngor rhad ac am ddim i bobl yng Ngogledd Iwerddon : www.adviceni.net

### Llinellau cymorth cyffredinol i ofalwyr:

**Cymru:**

Llinell Maethu Cymru: 0800 316 7664

**Lloegr:**

Fosterline: 0800 040 7675

**Yr Alban:**

Kinship Care Helpline: 0808 800 0006

Fosterline Scotland: 0141 204 1400

**Gogledd Iwerddon**

Fostering Network NI: 0289 070 5056

## Sut gallaf eu helpu i aros yn ddiogel ar-lein?

Os ydych yn annog plant a phobl ifanc i wneud gwaith ymchwil ar-lein, gwnewch yn siŵr eu bod yn deall materion diogelwch personol ac ariannol. Ceir gwefannau a all helpu yn hyn o beth, er enghraifft:

**BBC CBBC**

www.bbc.co.uk/CBBC/topics/stay-safe

CBBC Office: CBBC Stay Safe. *Hacker and Dodge* – mae hwn yn profi gwybodaeth plant am ddiogelwch ar y we gyda chriw Hacker and the *Horrible Histories*

### Get Safe Online

www.getsafeonline.org/

Mae'r wefan hon yn rhoi cyngor arbenigol yn rhad ac am ddim i oedolion a phobl ifanc yn eu harddegau hwyr ar sut i osgoi twyll ariannol a thwyll hunaniaeth.

### Think You Know

www.thinkyouknow.co.uk

Gydag adrannau ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu harddegau yn ogystal ag ar gyfer rhieni a gofalwyr, mae hon yn rhoi arweiniad ar ddiogelwch y we a syrffio'n ddiogel.

## Y "Share Foundation"

www.sharefound.org

Elusen annibynnol a sefydlwyd yn 2005 yw'r *Share Foundation* i roi Cyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau /cyfrifon buddsoddi i bob person ifanc mewn gofal (a adwaenir fel rhai 'sy'n Derbyn Gofal') am dros flwyddyn yn ddi-dor. Ni fydd gan y bobl ifanc hyn Gronfa Ymddiriedolaeth Plant. Mae'r 'Share Foundation' yn gyfrifol am:

- Sefydlu pob cyfrif gyda grant cychwynnol o £200 gan y Llywodraeth;
- Codi arian gwirfoddol ychwanegol trwy annog unigolion a sefydliadau i gyfrannu a buddsoddi yn nyfodol y bobl ifanc hyn;
- Monitro perfformiad gweithredol a buddsoddi'r cyfrifon hyn i gael y canlyniadau gorau; a
- Rhoi addysg ariannol gyda chymorth **pfeg**.

## pfeg

www.pfeg.org **pfeg** (Y Grŵp Addysg Arian Personol – Personal Finance Education Group) yw prif sefydliad y Deyrnas Gyfunol sy'n cynorthwyo ysgolion i gynllunio a dysgu plant a phobl ifanc sut i drin eu harian yn awr ac yn y dyfodol. Bwriad **pfeg** yw cefnogi darparwyr addysg i roi i blant a phobl ifanc y sgiliau, y wybodaeth a'r hyder i drin arian. Gwnawn hyn yn y ffyrdd a ganlyn:

- Dylanwadu ar bolisi ac ymarfer
- Cefnogi addysgwyr i ddysgu am faterion ariannol gyda hyder
- Darparu adnoddau addysgol fydd yn ennyn diddordeb ac yn ysbrydoli.

© Hawlfraint y Goron
Cewch ail ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded, ewch i'r wefan **http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/** neu e-bostiwch: **psi@nationalarchives.gsi.gov.uk**.
Lle nodwyd mai trydydd parti sydd piau'r hawlfraint ar unrhyw wybodaeth, bydd angen ichi dderbyn caniatâd gan ddeiliad yr hawlfraint hwnnw.